# CYNGOR SIR

Cofnodion cyfarfod o'r Cyngor Sir a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Rhuthun LL15 1YN, Dydd Mawrth, 5 Chwefror 2013 am 10.00 am.

## YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Ian Armstrong, Raymond Bartley, Joan Butterfield, Jeanette Chamberlain-Jones, William Cowie, James Davies, Meirick Davies, Richard Davies, Stuart Davies, Peter Arnold Evans, Hugh Evans, Bobby Feeley, Huw Hilditch-Roberts, Colin Hughes, Rhys Hughes, Hugh Irving, Alice Jones, Huw Jones, Pat Jones, Gwyneth Kensler, Geraint Lloyd-Williams, Margaret McCarroll, Jason McLellan, Barry Mellor, Bob Murray, Dewi Owens, Arwel Roberts, Gareth Sandilands, David Simmons, Barbara Smith, David Smith, Bill Tasker, Julian Thompson-Hill, Joe Welch, Cefyn Williams, Cheryl Williams a/ac Huw Williams

## HEFYD YN BRESENNOL

Prif Weithredwr (MM); Cyfarwyddwyr Corfforaethol: Uchelgais Economaidd a Chymunedol (RM); Cwsmeriaid (HW) a Moderneiddio a Lles (SE); Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd (RGW); Pennaeth Cyllid ac Asedau (PM) a Gweinyddwr y Pwyllgor (KEJ)

## 1 YMDDIHEURIADAU

Cynghorwyr Brian Blakeley, Ann Davies, Carys Guy Davies, Martyn Holland, Win Mullen-James Merfyn Parry, Peter Owen, Eryl Williams.

## 2 DATGANIADAU O FUDDIANT

Datganodd y Cynghorydd Jason McLellan fod ganddo ddiddordeb personol yn Sinema a Chanolfan Celfyddydau Scala, Prestatyn – ceir cyfeiriad o fewn Cyllideb 2013/14 (Eitem Agenda 5).

Datganodd y Cynghorwyr Ray Bartley, Jeanette Chamberlain-Jones, Hugh Evans, Huw Hilditch-Roberts, Geraint Lloyd-Williams, Bill Tasker a Cefyn Williams fod ganddynt ddiddordeb personol yn yr eitem ar Benderfyniadau “Mae Gofal Iechyd yng Ngogledd Cymru yn Newid ” (Eitem Agenda 6).

## 3 MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Nid oedd unrhyw faterion brys.

## 4 COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 8 Ionawr 8 2013.

***PENDERFYNWYD*** *y dylid cadarnhau bod cofnodion cyfarfod y cyngor a gynhaliwyd ar 8 Ionawr 2013 yn gywir ac y dylai'r Cadeirydd eu llofnodi.*

## 5 CYLLIDEB 2013/14

Cyflwynodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill yr adroddiad yn manylu ar gynigion y gyllideb ar gyfer 2013/14 a'r cynnydd dilynol yn lefel y Dreth Gyngor. Roedd y canlynol ynghlwm wrth yr adroddiad: Cynigion Arbedion y Gyllideb ar gyfer 2013/14 (Atodiad 1); Grantiau a drosglwyddwyd i'r Setliad Cyffredinol 2013/14 (Atodiad 2); Cyllideb Sir Ddinbych 2013/14 (Atodiad 3) a'r Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb (Atodiad 4).

Hysbyswyd yr Aelodau o setliad terfynol is na'r disgwyl o Lywodraeth Cymru gan gynnwys toriad yn y cyllid cyfalaf a oedd yn golled arwyddocaol. Tynnwyd sylw at y goblygiadau i'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig (MTFP) ynghyd â'r arbedion fyddai eu hangen dros y dair blynedd nesaf a'r rhagolygon diweddaraf yn nhermau'r pwysau oedd wedi'u hadnabod yn flaenorol. Cyfeiriwyd at -

- disgwyliad Llywodraeth Cymru y byddai cyllidebau ysgolion a gofal cymdeithasol yn cael eu hamddiffyn rhag arbedion a fyddai'n rhoi straen pellach ar wasanaethau eraill wrth iddynt orfod chwilio am arbedion pellach i wneud iawn [ar gyfer 2013/14 roedd oddeutu 56% o'r gyllideb wedi'i gylch ffensio a'i amddiffyn]
- goblygiadau ariannol yn codi o Gynllun Cymorth y Dreth Gyngor, yn enwedig yng ngoleuni newidiadau diweddar i'r rheoliadau sy'n arwain at dderbyniadau annisgwyl sydd o leiaf werth £300k i'r flwyddyn ynghyd ag opsiynau posibl ar gyfer dyrannu'r swm yma
- diweddariad ar ganlyniadau gweithdai'r gyllideb a gynhaliwyd i aelodau yn Nhachwedd a Rhagfyr 2012 (ynghylch arbedion, blaenoriaethau a'r dreth gyngor) ynghyd â'r sesiwn ar ariannu'r Cynllun Corfforaethol
- yn seiliedig ar gynigion cyfredol, 2% o gynnydd ar y mwyaf fyddai yn y Dreth Gyngor a'r dybiaeth sylfaenol ar gyfer y dyfodol oedd y byddai'r Dreth Gyngor yn parhau i godi oddeutu 2%. Byddai gofyn i'r Cyngor gymeradwyo lefel y Dreth Gyngor yn ffurfiol yn y cyfarfod nesaf.

Dywedodd y Cynghorydd Thompson-Hill ei bod yn flwyddyn ariannol heriol arall ond bod y gyllideb arfaethedig yn realistig ac yn un y gellid ei gwireddu o ran buddsoddi mewn blaenoriaethau ac amddiffyn gwasanaethau rheng flaen rhag gostyngiadau sylweddol. Cymerodd y cyfle i ddiolch i'r Pennaeth Cyllid ac Asedau (H:FA) a'i dîm am eu holl waith caled. Roedd aelodau hefyd wedi chwarae rhan bwysig ym mhroses gosod y gyllideb a diolchodd y H:FA iddynt am eu cyfraniad a'u llywio gwleidyddol.

Wrth ystyried y cynigion ar gyfer arbed, cododd yr aelodau gwestiynau ynghylch y targedau arbed yn gysylltiedig â gwasanaethau unigol. Roeddynt eisiau sicrwydd ynghylch diddymu lwfans defnyddiwr car hanfodol a chanlyniad pleidlais y staff, ac na fyddai gwasanaethau gofal dydd yn cael eu heffeithio o ganlyniad i'r arbedion yn y gwasanaethau gofal. Wrth ymateb, fe wnaeth y Cynghorydd Thompson-Hill a'r Pennaeth Cyllid ac Asedau –

- nodi bod y cynigion gwreiddiol ar gyfer arbedion wedi cynnwys darpariaeth gofal dydd ond bod yr elfen hon wedi'i diddymu yn ddiweddarach yng ngoleuni pryderon aelodau
- rhoi gwybodaeth i'r aelodau ar y trafodaethau gydag Undebau Llafur i ddiddymu'r lwfans defnyddiwr car hanfodol a oedd i fod i'w gyflwyno dros y flwyddyn
- rhoi gwybodaeth ar y cynllun lleihau carbon gan nodi y byddai'r Cyngor yn cael ei asesu yn 2014/15 a bod disgwyl canlyniad ffafriol
- manylion am brosiectau sy'n cyfrannu at foderneiddio'r Cyngor gan gynnwys rhesymoli argraffyddion, gwell defnydd o ofod, lleihau'r milltiroedd a deithir a'r defnydd o offer swyddfa, caffael, absenoldeb salwch gan gadarnhau y byddai'r agenda moderneiddio yn nodwedd gref dros yr ychydig flynyddoedd nesaf
- rhoi gwybodaeth am feddwl systemau yn cael ei ddefnyddio i wella prosesau a symud o systemau llaw i rai electronig
- nodi bod arbediad o £100k wedi bod yn bosibl ar gyfer parciau ailgylchu yn dilyn ail-drafod y cytundeb rheoli gyda chontractwr preifat
- manylu ar ad-drefniant Cynllunio a Diogelwch Cyhoeddus yn dilyn y penderfyniad i beidio bwrw ymlaen gyda chydweithio llawn gyda Chyngor Sir Bwrdeistref Conwy a fyddai wedi arwain at ddiddymu swyddi oedd wedi bod yn wag am gyfnod hir
- nodi y byddai gallu i faethu'n fewnol yn cael ei ddatblygu i sicrhau mwy o hyblygrwydd a llai o ddibyniaeth ar faethu allanol
- esbonio bod y Cyngor wedi gweithio'n agos gyda holl gwmnïau hyd braich i benderfynu ar sail unigol a fyddai modd ymdopi gyda llai o gymhorthdal. O ganlyniad, roedd arbedion i'r Scala a Theatr y Pafiliwn wedi'u gohirio
- hysbysu bod cytundeb wedi'i wneud yn ystod sesiwn yr aelodau ar ariannu'r Cynllun Corfforaethol, y byddai unrhyw dderbyniadau annisgwyl yn ystod y flwyddyn yn cael eu defnyddio ar fuddsoddi strategol
- esbonio'r goblygiadau sy'n codi o ail-lunio'r gwasanaeth glanhau strydoedd ac uniad timoedd mewn Gwasanaethau Amgylcheddol
- adrodd ar lefel y Dreth Gyngor mewn cymhariaeth ag awdurdodau lleol eraill.

Yn ystod y drafodaeth, mynegodd y Cynghorydd Joan Butterfield bryderon ynghylch dau gynnig ar gyfer arbedion o fewn Gwasanaethau Amgylcheddol, sef (1) DB1 – Cynnydd yn y taliadau ar gyfer rhai gwasanaethau fel casglu gwastraff swmpus, y credai y byddai'n effeithio fwyaf ar aelodau tlotaf cymdeithas gan arwain at fwy o dipio anghyfreithlon, a (2) DB13 – Taliadau Mynwentydd, y credai oedd yn gwahaniaethu ac a fyddai eto yn effeithio ar y sawl sy'n byw mewn tlodi. O ganlyniad, cynigiodd welliant, a eiliwyd gan y Cynghorydd Cefyn Williams, y dylid tynnu'r arbedion hynny o'r gyllideb. Esboniodd y Cynghorydd Thompson Hill na fyddai'r cynnydd mewn taliadau yn arwain at dorri gwasanaethau ond yn hytrach y byddai'n sicrhau bod taliadau yn cyd-fynd ag awdurdodau cyfagos. Ychwanegodd y Cynghorydd David Smith bod yr arbedion i gyllidebau unigol wedi cael eu hystyried yn fanwl yn ystod y broses herio gwasanaeth. Trafododd yr Aelodau y gwelliant ac fe'u hysbyswyd y byddai dileu'r arbedion hyn yn debygol o arwain at ofyn i Wasanaethau Amgylcheddol ganfod arbedion o fannau eraill o fewn y gwasanaeth. Cynhaliwyd pleidlais a ***LLWYDDODD*** y gwelliant.

Ystyriodd Aelodau rinweddau'r gwahanol opsiynau a oedd o fewn yr adroddiad ar gyfer dyrannu'r swm annisgwyl o £300k a gododd o newidiadau i reoliadau'r Dreth Gyngor. Cynigiodd y Cynghorydd David Simmons, a eiliwyd gan y Cynghorydd Joan Butterfield, y dylid trosglwyddo £200k i gyfrifon cyffredinol i'w ddefnyddio i liniaru pwysau ar wasanaethau sy'n codi yn ystod y flwyddyn, ac y dylid dyrannu £100k ar gyfer cefnogi Diwygio Lles. Atgoffodd y Cynghorydd Barbara Smith yr aelodau y byddai arian ar gael o Lywodraeth Cymru i gefnogi elfen dai y cynlluniau diwygio lles ac y byddai elfennau eraill o ddiwygio lles naill ai'n cael eu cyflwyno dros amser neu'n cael eu rhoi ar waith yn y dyfodol. O ganlyniad, roedd hi'n cwestiynu a oedd angen arian ychwanegol ar gefnogi diwygio lles ar hyn o bryd; awgrymodd y dylid dyrannu swm ar gyfer buddsoddi strategol. Roedd y Cynghorydd Hugh Evans yn cytuno nad oedd gwerth dyrannu arian i gefnogi diwygio lles ar hyn o bryd, a chynigiodd welliant, a eiliwyd gan y Cynghorydd David Smith, y dylid dyrannu £300k i fuddsoddi strategol er mwyn hyrwyddo'r Cynllun Corfforaethol. Cyfeiriodd y Cynghorydd Colin Hughes at bartneriaid lles y Cyngor, fel y Rhwydwaith Gwrthdlodi a oedd hefyd yn wynebu anawsterau ariannol yn sgil colli cyllid craidd, ac awgrymodd y gellid ystyried cynyddu eu cyllid o gofio bod cynnydd hefyd yn nifer y bobl oedd angen cyngor ar faterion lles. Roedd y Cynghorydd Thompson-Hill yn croesawu'r cynnig i ddyrannu £300k i fuddsoddi strategol gan gredu y byddai hynny'n sicrhau'r datblygiad tymor hir gorau o'r arian, ac atgoffodd yr aelodau o'r cytundeb blaenorol i ddyrannu derbyniadau annisgwyl i fuddsoddi strategol. Nid oedd yn ystyried bod angen rhoi arian pellach mewn cyfrifon cyffredinol.

Wrth ymateb i'r drafodaeth, dywedodd y H:FA bod arian i ymdrin â phwysau yn ystod y flwyddyn eisoes wedi'i gynnwys o fewn cyfrifon cyffredinol a'i fod yn credu bod lefel hynny yn rhesymol. Ychwanegodd, pe byddai arian yn cael ei ddyrannu i fuddsoddi strategol yn y lle cyntaf, y byddai modd i aelodau ei ail-ddyrannu yn y dyfodol cyn belled â bod angen gwirioneddol dros wneud hynny. Cadarnhaodd y H:FA y byddai Llywodraeth Cymru yn darparu oddeutu £2m yn genedlaethol i gefnogi costau trosglwyddo diwygio lles a tra byddai angen £1m i dalu costau TG, byddai arian yn weddill a phosibiliad o'i rannu gyda phartneriaid fel y Ganolfan Gynghori a Siop Cyngor Budd-daliadau. Yng ngoleuni'r cyngor a ddarparwyd gan y H:FA, dileodd y Cynghorydd David Simmons ei gynnig ar gyfer dyrannu'r derbyniadau annisgwyl. Ychwanegodd y H:FA ei fod yn cadeirio'r Grŵp Diwygio Lles a bod croeso i aelodau arsylwi yn y cyfarfodydd hynny pe byddai ganddynt bryderon pellach yn y maes hwnnw. Ar ôl trafodaeth bellach –

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cyngor yn cymeradwyo –*

*(a)* *cynigion y gyllideb ar gyfer 2013/14 fel y'u dangosir yn yr atodiadau yn amodol ar ddileu –*

- *DB1 Cynnydd yn y Taliadau am Rai Gwasanaethau (e.e. gwastraff swmpus) - £5k*
- *DB13 Taliadau Mynwentydd - £10k, a Gwasanaethau Amgylcheddol i wneud arbedion eraill o £15k yn lle'r rhain;*

*(b)* *dyrannu'r derbyniadau annisgwyl o £300k a oedd yn codi o newidiadau i reoliadau'r dreth gyngor i Fuddsoddi Strategol (Opsiwn A o fewn yr adroddiad) gydag aelodau yn cytuno ar wariant, a*

*(c)	y cynnydd dilynol o 2% yn lefel y Dreth Gyngor ar gyfer 2013/14.*

Ar y pwynt hwn (11.40 a.m.), cafwyd egwyl ar gyfer lluniaeth.

**6	MAE GOFAL IECHYD YNG NGOGLEDD CYMRU YN NEWID" - PENDERFYNIADAU**

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol dros Foderneiddio a Lles (CD:MW) yr adroddiad (a ddosbarthwyd o flaen llaw) yn crynhoi'r penderfyniadau a wnaethpwyd gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC) ar 18 Ionawr 2013 yn dilyn ymgynghoriad ar adolygiadau'r gwasanaeth iechyd. Roedd yr adroddiad yn canolbwyntio ar y penderfyniadau a oedd yn ymwneud â chyfleusterau a gwasanaethau yn Sir Ddinbych ynghyd ag amserlenni ar gyfer gweithredu a materion a phryderon oedd yn parhau i'r Cyngor. Yn nhermau gwneud penderfyniadau, atgoffwyd aelodau mai'r Cyngor Iechyd Cymuned (CIC) oedd yr unig gorff a allai atgyfeirio penderfyniad y Bwrdd yn ffurfiol i'r Gweinidog, a bod angen ymateb y Cyngor hwnnw erbyn 3 Mawrth 2013. Gofynnwyd am safbwyntiau'r Aelodau ynghylch y datblygiadau diweddaraf a'r camau nesaf gan ystyried argymhellion yr adroddiad a diweddariad llafar gan y Prif Weithredwr.

Rhoddodd y Prif Weithredwr adroddiad llafar o'r cyfarfod rhwng Prif Weithredwyr Awdurdodau Lleol Gogledd Cymru a BIPBC a gynhaliwyd ar 1 Chwefror. Yn y cyfarfod hwnnw, trafodwyd pedwar maes eang a oedd yn achosi pryder –

**Costau ychwanegol yn gysylltiedig â chynnydd mewn gofal yn y gymuned** - gallai datblygiad ardaloedd lleol a gwasanaeth gofal gwell arwain at gynnydd yn y galw ar wasanaethau cymdeithasol a chostau. Ystyriwyd bod gofal yn y cartref yn gam positif ond nid oedd digon o fanylion ar y cynigion a'r materion yn ymwneud â fforddiadwyedd, gweithrediad ac adnoddau. Roedd BIPBC wedi rhoi sicrwydd llafar na fyddai costau yn cael eu trosglwyddo i awdurdodau lleol ac roedd cynghorau wedi gofyn am weld model ariannol yn cael ei ddatblygu a fyddai'n rhoi manylion ar gostau ariannol a phroses eglur ar gyfer gweithredu'r newidiadau.

**Buddsoddi Cyfalaf** - roedd y cynlluniau yn cynnwys oddeutu £40m o fuddsoddi cyfalaf yn y ddarpariaeth newydd, ac roedd oddeutu £27m o'r swm o fewn Sir Ddinbych. Nid oedd yr arian angenrheidiol wedi'i sicrhau hyd yma ac roedd cynlluniau yn ddibynnol ar ansawdd yr achos busnes a Llywodraeth Cymru yn darparu'r arian. Gan fod hwn yn faes risg sylweddol, roedd cais wedi'i wneud am gael sicrwydd bod arian ar gael ar gyfer cyfleusterau newydd cyn i unrhyw gyfleusterau sy'n bodoli eisoes gael eu cau fel y cynlluniwyd.

**Trefniadau Cludiant** - roedd hi'n amlwg y byddai'n rhaid i fwy o bobl, gan gynnwys pobl fregus, deithio ar gyfer darpariaeth gofal iechyd. Roedd teimlad bod cyfrifoldeb ar y sector cyhoeddus a'r sector gwirfoddol i ddatblygu cynllun cludiant ac roedd BIPBC wedi ymrwymo i wario £80k ar ymateb i anghenion teithio. Er mwyn symud ymlaen, byddai'n rhaid i bartneriaid perthnasol ddatblygu cynllun cludiant i'r bobl hynny sydd wedi'u heffeithio.

**Rheoli Trefniadau Trosglwyddo** – roedd cynlluniau i gau gwasanaethau a chyfleusterau cyn i'r cyfleusterau newydd gael eu sefydlu hefyd yn achosi cryn bryder. Roedd BIPCB wedi egluro na fyddai'r un claf heb wasanaethau pan fyddai angen y rheiny ac y byddai'r bobl a oedd yn cael eu heffeithio yn cael cefnogaeth hyd nes byddai'r trefniadau newydd yn eu lle. Roedd angen sicrwydd bod cynlluniau trosglwyddo effeithiol wedi cael eu datblygu.

Talodd y Cynghorydd Bobby Feeley, Aelod Arweiniol dros Ofal Cymdeithasol a Gwasanaethau Plant deyrnged i staff sy'n gweithio yn y gwasanaeth iechyd mewn amgylchiadau ansicr ac anodd. Tra'n cytuno bod yr adolygiad wedi bod yn angenrheidiol, roedd yn teimlo y gellid fod wedi rheoli'r broses yn fwy effeithiol. Roedd y Cyngor wedi craffu'n ofalus ar y cynlluniau a byddai sefydlu Fforwm Iechyd a Gofal Cymdeithasol Strategol yn sicrhau bod trafodaethau yn parhau. Wrth roi sylwadau ar y cynlluniau, mynegodd ei siom gyda'r ffaith y bydd Ysbyty Rhuthun yn colli ei uned mân anafiadau a gwasanaethau pelydr-x a hefyd gyda'r cynlluniau i gau gwelyau cleifion mewnol yn Ysbytai Prestatyn a Llangollen Hospitals cyn i'r gwasanaethau newydd gael eu sefydlu. Tynnodd sylw hefyd at yr angen i ail-ymweld â threfniadau cludiant a gwasanaethau newydd-anedig. Yng ngoleuni adroddiad llafar y Prif Weithredwr, cynigiodd y Cynghorydd Feeley y dylid cynnal cyfarfod brys gyda BIPBC i bwyso am addewid na fyddai cyfleusterau yn cau hyd nes bod buddsoddiad cyfalaf newydd wedi'i sicrhau. Cynigiodd hefyd y dylid cynnal cyfarfod gydag asiantaethau eraill i ymdrin â'r trefniadau cludiant.

Cadarnhaodd y Cynghorydd Ray Bartley, aelod o'r CIC, ei fod wedi bod yn darparu'r wybodaeth ddiweddaraf i aelodau ar hynt CIC ac y byddai'n parhau i wneud hynny. Byddai'n mynychu'r cyfarfod nesaf o'r Bwrdd Gweinyddol ar 20 Chwefror er nad fe aelodau.

Agorodd y Cadeirydd y drafodaeth gan ofyn am safbwyntiau aelodau ar ddatblygiadau diweddar a'r ffordd ymlaen. Tra'n gwerthfawrogi'r angen am ad-drefnu gwasanaethau iechyd, mynegodd y Cyngor eu rhwystredigaeth a'u siom gyda phenderfyniadau a wnaethpwyd gan BIPBC er gwaethaf protestiadau lleol a gwrthwynebiad chwyrn i gynigion penodol a oedd wedi'u nodi'n glir yn yr ymateb cynhwysfawr i'r ymgynghoriad. Codwyd pryderon bod safbwyntiau cyhoeddus wedi'u diystyru yn ystod y broses gwneud penderfyniadau ac nad oedd sylw dyledus wedi'i roi i sylwadau'r Cyngor nag ymateb digonol wedi'i roi i ddarparu sicrwydd ynghylch rhai materion penodol. Roedd aelodau'n ystyried bod BIPBC wedi bod yn gamarweiniol ac yn llai nag onest yn eu gweithrediadau a bod hynny wedi arwain at ddiffyg ymddiriedaeth a hyder yn y Bwrdd Iechyd. Roedd cyflymder y broses cau ysbytai a gwasanaethau penodol yn bryder mawr, yn enwedig yng ngoleuni'r cyhoeddiad diweddaraf y byddai rhai unedau mân anafiadau yn cau o fewn pythefnos hyd yn oed cyn bod ymateb i'r penderfyniadau wedi cael eu derbyn oddi wrth y CIC. Roedd teimlad nad oedd y Bwrdd Iechyd wedi darparu fawr ddim sicrwydd mewn ymateb i faterion o bwys a bod hynny'n anfon neges o ddifaterwch ar eu rhan ac agwedd ddi-hid at safbwyntiau lleol. Cyfeiriodd Aelodau at eu dyletswydd i gynrychioli buddiannau eu cymunedau gan nodi eu bod yn teimlo'n gryf bod angen ymateb yn bendant a gweithredu i gyfathrebu nerth eu teimladau i BIPBC.

Nid oedd y Cynghorydd Stuart Davies am fynd mor bell â chynnig pleidlais o ddiffyg hyder yn y Bwrdd Iechyd, gan gynnig yn hytrach bod y Cyngor yn mynnu cyfarfod brys gyda BIPBC i drafod y posibiliad o gadw cyfleusterau presennol ar agor hyd nes bod ymrwymiad pendant wedi dod o Lywodraeth Cymru ynghylch ariannu'r cyfleusterau newydd a bod cyfleusterau dros dro wedi'u sefydlu. Ychwanegodd os nad oedd BIPBC yn fodlon trafod, y byddai'n cynnig pleidlais o ddiffyg hyder yng nghyfarfod nesaf y Cyngor Llawn. Eiliodd y Cynghorydd Peter Evans y cynnig.

Adroddodd y Cynghorydd Alice Jones ar ymchwil yr oedd wedi'i wneud yng ngoleuni'r cynigion gofal iechyd a'r effaith ar Ysbyty Glan Clwyd (YGC) a chododd bryderon ynghylch y canlynol –

- israddio YGC i hwb ysbyty a cholli statws
- effaith y cynlluniau ar gyfer gwasanaethau fasgwlar, yn enwedig gan fod llawdriniaeth fasgwlar ar y safle yn hanfodol os oedd YCG am ddod yn Ganolfan Ymyriad Coronaidd
- yr effaith ar Ddamweiniau ac Achosion Brys na fyddai bellach yn derbyn ystod lawn o gyflyrau ond a fyddai'n fwy dewisol; byddai hynny'n effeithio ar iechyd cleifion ac yn arwain at anawsterau o ran recriwtio meddygon dan hyfforddiant, a
- dileu llawdriniaeth brys yn yr ysbyty.

Gofynnodd y Cynghorydd Jones am gefnogaeth y Cyngor i amddiffyn statws a gwasanaeth YGC fel Ysbyty Cyffredinol Dosbarth a chynigiodd welliant i ymateb y Cyngor i gynnwys cyfeiriad at eu gwrthwynebiad i israddio YGC i fod yn hwb ysbyty a'u dymuniad iddo barhau fel Ysbyty Cyffredinol Dosbarth gydag uned llawdriniaeth lawn, ragorol i gynnwys gwasanaeth fasgwlar brys. Eiliwyd y cynnig gan y Cynghorydd Hugh Irving. Tra'n derbyn y pryderon a godwyd, nid oedd y CD:MW yn ystyried bod dynodi YGC fel hwb yn golygu bod yr ysbyty wedi'i israddio ond yn hytrach bod y gwasanaethau a ddarparwyd gan hybiau ysbyty hefyd ar gael yno. Cyfeiriodd at y buddsoddiad sylweddol yn yr Adran Ddamweiniau ac Achosion Brys a'r theatrau yn YGC a nododd ei bod yn teimlo y dylid gofyn am sicrwydd gan BIPBC ynghylch gwasanaethau ar y safle yn hytrach na thybio bod yr ysbyty yn mynd i gael ei israddio.

Mynegodd y Cynghorydd Arwel Roberts ei bryderon ynghylch gwasanaethau newydd-anedig yn cael eu symud i Ysbyty Arrowe Park Hospital ar y Wirral a chyfeiriodd at grŵp trawsbleidiol o Aelodau Cynulliad a oedd wedi uno gyda golwg ar rwystro'r cynlluniau. Cynigiodd y Cynghorydd Roberts, ac eiliodd y Cynghorydd Rhys Hughes, y dylid galw ar holl Brif Weithredwyr Gogledd Cymru i wrthwynebu'r cynllun i symud gwasanaethau newydd-anedig allan o Gymru. Nododd y Cynghorydd Cefyn Williams bod y Bwrdd wedi cadarnhau symud gwasanaethau newydd-anedig o fewn 6 - 12 mis ar ôl derbyn sicrwydd bod Arrowe Park wedi cydymffurfio gyda'r safonau gofynnol. O ganlyniad, roedd y Cynghorydd Williams yn cwestiynu safon y gofal yn Arrowe Park gan deimlo y byddai'n well gwario'r arian a glustnodwyd ar gyfer gofal newydd-anedig yng Ngogledd Cymru.

Yn ystod y drafodaeth, cytunodd aelodau mai'r meysydd canlynol oedd yn achosi'r pryder mwyaf iddynt -

- trefniadau trosglwyddo wrth i BIPBC baratoi i gau rhai gwasanaethau a chyfleusterau cyn bod addewid o fuddsoddiad cyfalaf newydd wedi'i roi neu cyn i wasanaethau dros-dro gael eu sefydlu
- lefel y gefnogaeth i ofalwyr a diffyg cynigion i ariannu gwasanaethau gwell yn y cartref
- cludiant a threfniadau teithio
- y gost botensial i'r Cyngor wrth i fwy o wasanaethau symud allan o ysbytai ac i gartrefi bobl
- dyfodol Ysbyty Glan Clwyd fel Ysbyty Cyffredinol Dosbarth
- trosglwyddo gofal newydd-anedig i Ysbyty Arrowe Park

Tynnodd Aelodau sylw hefyd at effaith penderfyniadau'r Bwrdd Iechyd ar eu trefi a'u cymunedau penodol a chodwyd pryderon ynghylch –

- cau Ysbyty Cymunedol Prestatyn gyda gwelyau i gleifion yn cael eu darparu mewn ysbytai cyfagos (a oedd eisoes gyda'u dalgylchoedd eu hunain – hynny'n achosi pryderon ynghylch lle) a diffyg unrhyw sicrwydd i ddangos bod materion yn ymwneud â chludiant wedi cael sylw
- roedd y Cynghorydd Peter Evans yn dymuno cofnodi ei fod yn gwrthwynebu cau Ysbyty Cymunedol Prestatyn hyd nes bod y cyfleusterau newydd wedi'u sefydlu yn Y Rhyl
- gwasanaethau yn cael eu trosglwyddo i Feddygon Teulu (sydd eisoes dan bwysau) heb unrhyw ddarpariaeth i gynyddu adnoddau i gyd-fynd â hynny
- adnoddau a gallu i wasanaethau penodol yn cael eu cynnal rhywle arall gan achosi mwy o bwysau ar wasanaethau eraill
- y brys ynghylch cau unedau mân anafiadau yn Rhuthun a Llangollen a chau cyfleusterau pelydr-x yn Rhuthun
- cau Ysbyty Llangollen a'r effaith niweidiol ar y gymuned leol a'u lles, a'r angen i fuddsoddi yn yr ysbyty yn lle ei gau.

Wrth wrthwynebu cau Ysbyty Llangollen, cynigiodd y Cynghorydd Rhys Hughes gynnig o ddiffyg hyder yn y broses ymgynghori a chynigion BIPBC ar gyfer y dyfodol yn Sir Ddinbych. Eiliwyd y cynnig gan y Cynghorydd Huw Williams.

Yng ngoleuni'r drafodaeth fanwl a nifer y cynigion, bu'r Cyngor yn ystyried sut orau i ymdrin â'u pryderon a chynrychioli buddiannau'r gymuned. Ystyriwyd a ddylid cymryd pleidlais o ddiffyg hyder yn y Bwrdd Iechyd neu fwrw ati i gynnal trafodaethau pellach gyda golwg ar ddod i gytundeb. Cynigiodd y Cynghorydd Huw Hilditch-Roberts y dylid galw cyfarfod brys gyda BIPBC ac i ystyried pleidlais o ddiffyg hyder yng nghyfarfod nesaf y Cyngor Llawn os na chafwyd ymateb boddhaol. Ar ôl pwyso a mesur, ystyriwyd y dylid gwneud ymgais bellach i gyfarfod gyda swyddogion BIPBC i drafod y ffordd ymlaen a gohirio'r galw am bleidlais o ddiffyg hyder yn y Bwrdd Iechyd hyd nes bod canlyniad y cyfarfod hwnnw yn wybyddus. Cytunwyd y dylai'r uwch gyfarfod gynnwys yr Aelod Arweiniol, y Cynghorydd Bobby Feeley ynghyd â chynghorwyr i gynrychioli ardaloedd lleol gwahanol fel a ganlyn – y Cynghorwyr Stuart Davies, Peter Evans, Alice Jones, Pat Jones, Gwyneth Kensler, Jason McLellan, Arwel Roberts, Julian Thompson-Hill and Huw Williams.

***PENDERFYNWYD*** –

*(a)* *y dylid trefnu cyfarfod brys rhwng Prif Weithredwr BIPBC a Phrif Weithredwr y Cyngor a'r Cyfarwyddwr Corfforaethol dros Foderneiddio a Lles ynghyd â'r cynghorwyr enwebedig (a enwyd uchod) i drafod pryderon y Cyngor ynghylch y newidiadau gwasanaeth a gynigiwyd i ddarpariaeth gofal iechyd ar draws y rhanbarth ac i drafod ffordd ymlaen, ac*

*(b)* *y dylid ystyried adroddiad ar y trafodaethau hyn yng nghyfarfod nesaf y Cyngor Llawn ar 26 Chwefror er mwyn galluogi aelodau i roi ystyriaeth bellach i safle'r Cyngor yng ngoleuni'r adborth a dderbyniwyd.*

## 7 BLAENRAGLEN WAITH Y CYNGOR SIR

Cyflwynodd y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd (H:LDS) Flaenraglen Waith y Cyngor yn cadarnhau y byddai adborth o'r cyfarfod gyda BIPBC fel y cytunwyd yn yr eitem agenda blaenorol yn cael ei ychwanegu i'r rhaglen waith i'r cyfarfod nesaf. Adroddodd y Cynghorydd Hugh Evans bod Bwrdd Rhanbarthol Gogledd Cymru wedi cytuno i gyhoeddi datganiad yn cefnogi'r egwyddor o garchar yng Ngogledd Cymru, a bod angen ychwanegu eitem i'r rhaglen waith i drafod sefyllfa Sir Ddinbych.

***PENDERFYNWYD*** *yn amodol ar y newidiadau uchod, y dylid nodi Blaenraglen Waith y Cyngor.*

Daeth y cyfarfod i ben am 2.00 y.p.